# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 6ed 2025 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Dewi Pritchard, Eilir Rowlands, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bethan Thomas, Gwenda Evans a Rita Jones.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-
i) Problem baw cŵn yn Llanfor – roedd trefniadau mewn lle i anfon swyddog allan i'r pentref.
ii) Dŵr yn llifo ar wyneb yr B4401 ger Crogen – roedd cyfarwyddyd wedi mynd i'r gweithlu ail gychwyn ar y gwaith pan fydd gweithwyr ar gael.
iii) Eiddew yn tyfu ar y lloches bws Llanfor – adroddodd y clerc fod y contractwr wedi ei glirio.
iv) Golau wrth y lloches bws yn Llanfor – roedd Llywodraeth Cymru wedi cysylltu'n nôl yn ein cynghori mae'r Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am oleuadau stryd (er fod y clerc wedi cael ei chyfeirio at Llywodraeth Cymru gan Gyngor Gwynedd). Roedd y clerc wedi cysylltu'n nôl â Chyngor Gwynedd ond heb gael ymateb hyd yn hyn.
v) Arwydd i gynghori cerbydau mawr i beidio defnyddio'r ffordd o Fryn Tirion, Llandderfel i ffordd y Berwyn – roedd y Clerc wedi ail gysylltu â'r Adran Draffig fel y cynghorwyd ym mis Tachwedd ac roedd trefniadau mewn lle i osod yr arwyddion priodol.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cwmni Pum Plwy Penllyn
i) Gwahoddiad i agoriad swyddogol Canolfan Bro Tegid,14/05/25.

b) Fferm Wynt Foel Fach.
i) Cais i gael mynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned i rhoi diweddariad ar y cynllun. Cytunwyd i'w gwahodd i gyfarfod mis Mehefin.

c) Cyngor Gwynedd.
i) Gwaharddiad traffig dros dro – B4401 Llanfor, 26/06/25.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd – Mai 2025.

ch) Amrywiol.
i) Cyfoeth Naturiol Cymru – rhybudd o waith torri coed yn Llanfor.
ii) Dŵr Cymru – gwahoddiad i ymweld â'i safle yn Llyn Celyn i gael diweddariad ar y gwaith adeiladu gorlifan newydd. Cafwyd adroddiad gan Alwyn Jones o'r datblygiadau.
iii) Llythyr gan unigolyn yn gwrthwynebu bwriad Angling Cymru i gynnal digwyddiad caiacio ar Lyn Tegid ym mis Medi. Gan nad oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw fanylion swyddogol am y digwyddiad nid oedd yn bosib iddynt roi barn ar hyn o bryd.
iv) BT – llythyr yn ein hysbysu o'i bwriad i gael gwared o'r ciosg ffôn ym mhentref Llandderfel. Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu hyn a gofynnwyd i'r clerc ymateb yn nôl ar ran y Cyngor. Cytunwyd hefyd i ymgynghori gyda'r gymuned i weld os fyddai defnydd arall i'r ciosg pe fyddai BT yn bwrw'n mlaen i waredu a'r ffôn.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

v) Parc Cenedlaethol – gwahoddiad i gyfarfod Zoom i gael diweddariad ar eu proses o ddiwygio eu cynlluniau strategol.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
i) C25/0032/04/LL – Newid defnydd caffi i ddefnydd swyddfa. Ysgubor Isaf, Rhiwlas.
ii) C25/0273/04/LL - Codi 10 o gytiau bugail, gosod cynhwysydd dŵr budr a suddfan dŵr a seilwaith i wasanaethu'r cytiau bugail. Pale Hall Hotel, Llandderfel.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i gais Ysgubor Isaf.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i wrthwynebu cais Pale gan y byddai'r cynllun yn gor-ddatblygu'r safle yn enwedig gan ei fod gerllaw adeilad rhestredig unigryw.

**<u>vi) Materion Ariannol.</u>**

<u>a) Derbyniadau.</u>
Derbyniwyd rhandal cyntaf o'r Praesept - £7500

<u>b) Taliadau.</u>
Cytunwyd i dalu canlynol –
i) AJG Community Schemes (yswiriant)
ii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd.

<u>c) Ceisiadau ariannol.</u>
Derbyniwyd ceisiadau gan Neuadd Bro Derfel (cyfraniad tuag at gostau cynnal a chadw'r toiledau cyhoeddus a'r pwynt gwefru ceir newydd), Eisteddfod Llangollen, Kids Cancer Charity. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu £200 i Neuadd Bro Derfel ac i drafod y ddau gais arall gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

**<u>vii) Materion lleol.</u>**
<u>a) Llythyr yn mynegu pryder am ddiogelwch gyrrwyr ar yr A494, Sarnau.</u>
Yn dilyn damwain ger Gors y Sarnau yn ddiweddar, derbyniwyd llythyr gan un o'r trigolion lleol yn gofyn am gyfyngiad cyflymder 40 m.y.a. o Sarnau i Dŷ Cip. Nid hon oedd yr unig ddamwain yn ddiweddar felly cytunwyd i ysgrifennu unwaith eto at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt adolygu'r A494 a hefyd pasio manylion y damweiniau diweddar i Mabon ap Gwynfor AS.

<u>b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-</u>
i) Sbwriel yn y gilfan rhwng Tŷ Nant a Cynlas, Cefnddwysarn.
ii) Cwyn cyffredinol fod darnau o geir/sbwriel ddim yn cael ei glirio ar ôl damweiniau.
iii) Cerrig yn dod yn rhydd o'r wal o flaen y lloches bws yng Nghefnddwysarn.
iv) Coed yn dod drosodd i'r ffordd ger y goleuadau traffig dros dro ym Methel.
v) Cais am balmentydd ychwanegol ar yr A494 i gysylltu'r llwybrau troed a'r pentrefi yn Sarnau a Cefnddwysarn.
vi) Llwybrau Cyhoeddus - cais am giat yn lle'r gamfa ger Erw Deg, Cefnddwysarn a torri'r gordyfiant tu ôl y tŷ. Cais am gamfeydd newydd ger Bryniau Gwynion, Sarnau ac ar y llwybr rhwng Cynlas a'r Hendre, Cefnddwysarn.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 3ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.


Arwyddwyd: ………………………………………….          Dyddiad: …………………………………..